

ASTUDIAETHAU MEWN GRWPIAU BACH

Addoliad a Dysgeidiaeth

ECO  **CHURCH**
AN A ROCHA UK PROJECT

 **BENEFACT TRUST**

www.ecochurch.arocha.org.uk



Addoliad a Dysgeidiaeth

Adnoddau ar gyfer grwpiau bach

Pam?

Rydym yn wynebu argyfwng amgylcheddol enfawr. Fel Cristnogion, mae angen i ni gael fframwaith Beiblaidd i'n helpu i ymateb i argyfyngau a pharhau ein taith mewn ffydd gyda dyfalbarhad a gwydnwch wrth i ni brosesu heriau anodd ein hunain a cheisio rhoi gobaith, gyda Christ yn ganolbwynt, i'r rheiny o'n cwmpas ni.

Mae grwpiau bach yn fannau lle gallwn ni ddadbacio ein cwestiynau, archwilio addysgu Beiblaidd yn fwy manwl a rhannu ein profiadau a'n hanogaeth. Gall y rhain fod yn grwpiau astudio neu efallai'n grwpiau gyda ffocws ar weithredu, lle mae gweithio mewn cymuned yn fwy effeithiol na gweithio ar eich pen eich hun. Mae grwpiau'n ein helpu i gerdded y daith ddieithr hon yn ddiogel gyda'n cyfeillion gofalgarg sydd hefyd yn ceisio byw yn y modd y dewisant fel disgyblion i Grist, gyda chariad at eraill a chyfiawnder i'r greadigaeth.

Sut?

Efallai y bydd eich eglwys eisiau paratoi ei hastudiaethau ei hun o gwmpas y thema hon mewn ffordd sy'n briodol i'ch cyd-destun chi. Ond, os ydych chi eisiau manteisio ar adnoddau sydd ar gael i'r cyhoedd (y gallwch eu teilwra wrth gwrs), dyma rai awgrymiadau:

Astudiaethau Beiblaidd

Cwrs Joy in Enough. The Plenty! Mae'r cwrs amserol hwn yn ymdrin â'r ffordd y mae ein systemau economaidd a chymdeithasol yn dylanwadu ar ein hymddygiad, sy'n niweidiol i'r amgylchedd, yr hinsawdd ac i'r ddynoliaeth. Green Christian sy'n ei gynhyrchu ac mae'n trafod y problemau mewn cyd-destun ysgrythurol, gan annog cyfranogwyr i feddwl am y pethau y mae'r Beibl yn ein hannog i'w gwneud yn wahanol: joyinenough.org/resources/plenty/

Cynhyrchodd y Bible Reading Fellowship ddau lyfr wedi eu seilio ar y Beibl yn 2021 i ddadansoddi tudalennau o'r Beibl a dangos sut maen nhw'n gysylltiedig â gofalu am yr amgylchedd:



Addoliad a Dysgeidiaeth

Adnoddau ar gyfer grwpiau bach

- '*A Christian Guide to Environmental Issues*' gan Margot a Martin Hodson. Mae'r canllaw hygyrch hwn yn cynnwys myfyrdodau moesegol, astudiaethau Beiblaidd sy'n canolbwyntio ar wahanol ddogfennaeth Feiblaidd ar gyfer pob pennod, ac eco-awgrymiadau i alluogi ymateb ymarferol. brfonline.org.uk/products/a-christian-guide-to-environmental-issues?_pos=1&_sid=a9fa84170&_ss=r
- '*Changing the Climate: Applying the Bible in a climate emergency*' gan Debbie, David a Jamie Hawker. Mae pob astudiaeth yn cysylltu'r darn gyda gweithredu er budd yr hinsawdd, mae'n gofyn cwestiynau ac yn awgrymu camau ymarferol y gellir eu cymryd: brfonline.org.uk/products/changing-the-climate-applying-the-bible-in-a-climate-emergency

Mae *Tenants of the King* yn adnodd gan Operation Noah sydd wedi ei seilio ar y Beibl, lle mae Crist yn ganolbwynt. Trwy sesiynau grŵp rhyngweithiol, cyfweiliadau fideo gyda meddylwyr Cristnogol blaenllaw a sylwadau craff mewn perthynas â'r Beibl, bydd yr astudiaeth bedair rhan hon yn eich helpu chi a'ch eglwys i fyfyrio ar heriau'r hinsawdd newidiol, a sut y gall Cristnogion ymateb gyda gobaith i un o heriau mwyaf ein cyfnod ni:

operationnoah.org/resources/tenants-of-the-king-study-guide/

Mae *Doxecology* yn cynnig canllawiau astudio sydd wedi eu llunio i gael eu defnyddio ar gyfer myfyrio personol a thrafodaethau mewn grwpiau bach, gyda chwestiynau ar ddiwedd pob pennod. Mae pob un o'r tair pennod ar ddeg wedi ei chysylltu at gân ar yr albwm sy'n cyd-fynd â hi, gyda darlenniad perthnasol o'r ysgrythurau, ac mae'n archwilio'r berthynas rhwng addoli a gofalu am y greadigaeth o safbwynt Beiblaidd:

resoundworship.org/store/product/doxecology-study-guide

Mae St Paul's, Dorking, wedi paratoi cyfres astudio Feiblaidd chwe sesiwn sy'n ymwneud â thestunau sy'n berthnasol i'r Eco Eglwys:

stpaulsdorking.org.uk/Publisher/File.aspx?ID=236621



Addoliad a Dysgeidiaeth

Adnoddau ar gyfer grwpiau bach

Bu Tearfund yn cydweithio â Katharine Hayhoe, gwyddonydd hinsawdd Cristnogol sy'n adnabyddus yn rhyngwladol, i greu astudiaeth naw rhan. Ymhob pennod, mae hi'n ymateb i gwestiynau am yr hinsawdd gan rai o arweinwyr ac aelodau eglwysi yn yr Alban:

tearfund.org/campaigns/christianity-and-climate-change-film-series

Gweithredu fel grŵp bychan

Mae rhai sefydliadau Cristnogol yn canolbwyntio ar weithredu ar sail yr ysgrythurau a bydd ganddynt grwpiau lleol y gallwch ymuno â nhw:

- Green Christian: greenchristian.org.uk/about/local-groups/
- Christian Climate Action: christianclimateaction.org/get-involved/regional-groups/

Defnyddiau darllen hirach ac adnoddau eraill

Mae deuddeg sefydliad Cristnogol sy'n pryderu am yr argyfwng hinsawdd wedi datblygu pecyn cymorth i arwain eich eglwys neu'ch grŵp bychan ar gyrch i weithredu ar yr hinsawdd, yn dilyn strwythur o 'baratoi', 'cyhoeddi', 'effeithio': climateemergencytoolkit.com/

Mae Operation Noah, sydd wedi eu cymell gan ffydd, eu hysbysu gan wyddoniaeth a'u hysbrydoli gan ffydd, yn rhestru amrywiaeth lawer ehangach o adnoddau i eglwysi ac arweinwyr eglwysi: operationnoah.org/category/resources/church-resources/

Nod Grove Brooks yw ysgogi'r gymuned Gristnogol a rhoi'r medrau perthnasol iddi drwy ddarparu sylwadau clir a chryno ar faterion cyfoes sydd wedi eu seilio ar egwyddorion Beiblaidd, ac mae'n ymgysylltu ag arferion gorau ac yn cynnig camau gweithredu ymarferol. Mae'r adnoddau byr hyn yn ddefnyddiau darllen cefndirol defnyddiol ac maen nhw ar gael mewn llyfr clawr papur neu fformat digidol: grovebooks.co.uk/